**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:
Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi at:
Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

20 Chwefror 2025

Annwyl Gydweithwyr,

Heddiw, rwy'n cyhoeddi manylion setliad refeniw a chyfalaf terfynol llywodraeth leol ar gyfer 2025-26 (y setliad) i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (yr awdurdodau) yng Nghymru drwy ddatganiad ysgrifenedig gan y Cabinet. Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi. Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* terfynol a'r tablau cysylltiedig sy'n cynnwys manylion y Setliad terfynol yn ôl awdurdod unigol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar Gwefan Llywodraeth Cymru

Yn 2025-26, bydd yr awdurdodau yn cael £6.14bn gan Lywodraeth Cymru o'r Grant Cynnal Refeniw ("RSG") ac ardrethi annomestig ("NDR") i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hyn yn golygu y bydd y cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2025-26 yn cynyddu 4.5%, ar sail tebyg at ei debyg, o'i gymharu â'r flwyddyn bresennol.

Wrth inni ddatblygu Cyllideb Derfynol 2025-26, rydym wedi blaenoriaethu diogelu gwasanaethau cyhoeddus craidd y rheng flaen i'r graddau y bo hynny'n bosibl, cefnogi'r aelwydydd hynny sydd wedi cael eu taro fwyaf a blaenoriaethu swyddi, pan fo hynny'n bosibl. Mae'r awdurdodau lleol yn allweddol i hyn.

Rwy'n falch bod cytundeb y gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Jane Dodds AS, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn cynnwys £8.24m yn ychwanegol i ddiogelu cyllid gwaelodol wedi'i bennu ar 3.8% yn y setliad. Mae hyn yn rhoi cymorth pellach i naw awdurdod ar draws Cymru. Bydd pob awdurdod yn gweld cynnydd mwy nag a welwyd yn 2024-2025.

Fel rhan o'r cytundeb â Jane Dodds AS, rydym hefyd wedi gallu darparu cyllid grant ychwanegol o £30m ar gyfer Trawsnewid Llwybrau Gofal Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, £30m ar gyfer Plant a Chymunedau a £5m ar gyfer Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan a fydd o gymorth ar gyfer cyflenwi'r gwasanaethau penodol hyn gan yr awdurdodau lleol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal â’r Setliad craidd, rwy’n cyhoeddi gwybodaeth ddangosol ar grantiau refeniw a chyfalaf penodol a gynlluniwyd ar gyfer 2025-26, sy’n dod i gyfanswm o dros £1.3bn ar gyfer refeniw a thros £1.0bn ar gyfer cyfalaf.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg yn darparu pecyn o gymorth NDR a fydd yn parhau i fod o fudd i bob talwr ardrethi yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi cap o 1% ar y cynnydd i’r lluosydd NDR ar gyfer 2025-26, ar gost flynyddol gylchol o £7m i gyllideb Cymru. O ganlyniad i’r cap hwn, mae elfen RSG y Setliad wedi cynyddu cyfwerth â £7m. Ochr yn ochr â’r Setliad, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi £78m yn ychwanegol i ddarparu chweched flwyddyn yn olynol o gymorth i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch gyda’u biliau NDR. Mae’r cymorth parhaus hwn yn cydnabod y pwysau economaidd y mae’r busnesau hyn wedi eu hwynebu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn adeiladu ar yr £1bn o gymorth a ddyrannwyd drwy ein cynlluniau rhyddhad penodol ers 2020-21.

2025-26 yw’r flwyddyn gyntaf y bydd ardrethi a ddargedwir yn cael eu talu fel rhan o’r Setliad. Mae swm o £268k, sef ardrethi cronedig sydd wedi’u priodoli i Fargen Ddinesig Bae Abertawe ers 2018-19, wedi’i ddidynnu cyn pennu ffigur y Cyllid Allanol Cyfun (“AEF”). Mae’r cyfanswm hwn yn cael ei dalu i awdurdodau perthnasol y Fargen Ddinesig honno (sef Cyngor Abertawe, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot). Mae’r ffigur cyfatebol wedi’i dalu i mewn i’r pwll NDR a'i ddosbarthu drwy’r setliad mewn blynyddoedd blaenorol. Bydd dargadw ardrethi yn nodwedd ar setliadau yn y dyfodol, ac mae’n debygol y bydd yn cynyddu mewn gwerth wrth i drefniadau eraill ar gyfer dargadw ardrethi ddod i rym.

Mae cyfuno neu ddadneilltuo grantiau yn parhau ar draws ystod eang o feysydd fel rhan o ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ysgafnhau’r baich gweinyddol ar lywodraeth leol. Rydym wedi trosglwyddo £15m o grantiau refeniw i’r setliad yn 2025-26. Mae’n bwysig inni weithio gyda’n cydweithwyr mewn llywodraeth leol er mwyn deall effeithiau’r newidiadau hyn wrth iddynt ymwreiddio. Mae hyn yn un o gonglfeini’r gwaith sy’n mynd rhagddo i feithrin perthynas strategol â llywodraeth leol sy’n seiliedig ar ymddiriedaeth ac ar ganolbwyntio ar y canlyniadau y gellir eu cyflawni mewn partneriaeth.

Cafodd y newid i’r gyfradd SCAPE ei ariannu yn 2024-25 drwy grant penodol ar gyfer athrawon addysg cyn-16 (£61m) a’r gwasanaeth tân (£3m). Mae hyn wedi’i osod fel llinell sylfaen yn y setliad yn 2025-26, gan fy mod yn disgwyl i’r costau cynyddol i’r gwasanaeth tân gael eu cynnwys yn ei ardoll i chi.

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gyllid ychwanegol i gefnogi awdurdodau ac ysgolion gydag effeithiau cyllidebol y gwahaniaeth rhwng y codiad cyflog a gynlluniwyd a’r cynnydd yn y dyfarniad cyflog am y saith mis sy’n dod i mewn i 2024-25. Mae’r cyllid hwn o £18m wedi’i osod fel llinell sylfaen yn Setliad 2025-26 ac mae £13m yn ychwanegol wedi’i ddyrannu ar gyfer costau’r flwyddyn gyfan. Unwaith eto, rwyf wedi penderfynu darparu’r holl gyllid sydd ar gael ymlaen llaw a pheidio â dal cyllid yn ôl ar gyfer cydnabod cytundeb cyflog athrawon 2025-26 yn ystod y flwyddyn. Felly, wrth gynllunio cyllidebau, rhaid i’r awdurdodau ystyried y costau hyn.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddwyd cyllid ychwanegol i gefnogi pwysau cyflog mewn awdurdodau, yn dilyn dyfarniadau cyflog uwch na’r bwriad gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (“NJC”), sef £52m. Mae hyn wedi’i osod fel llinell sylfaen yn y Setliad ochr yn ochr â £900k ar gyfer pwysau cyflog y gwasanaethau tân, a fydd yn llifo drwy’r ardoll. Rhaid i waith cynllunio’r gyllideb gan yr awdurdodau, yn ôl yr arfer, ddarparu ar gyfer unrhyw godiadau yn y dyfodol.

Gwnaeth cyllideb Llywodraeth y DU newidiadau i'r cyfraddau a'r trothwyon ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 1 Ebrill 2025 yn Natganiad yr Hydref. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yn darparu cyllid i gyflogwyr y sector cyhoeddus i dalu costau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr sydd wedi cynyddu. Bydd yn defnyddio diffiniad swyddogol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o gyflogwr y sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cadarnhau y darperir ei chyfran o'r cyllid hwn i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r costau i'r sector cyhoeddus datganoledig. Rydym yn disgwyl derbyn y cyllid ychwanegol ddiwedd y gwanwyn ac rydym yn gweithio gyda Thrysorlys EF i gael eglurder ynghylch manylion a lefel y cymorth a ddarperir. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi cadarnhau y bydd y cyllid i Gymru ar gyfer helpu i dalu cyfraniadau cyflogwyr y sector cyhoeddus yn cael ei drosglwyddo. Gallaf gadarnhau nad oes cyllid yn y setliad llywodraeth leol terfynol i fodloni'r cynnydd yng nghostau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr y sector cyhoeddus. Mae fy swyddogion eisoes wedi cyfarfod â'r Is-Grŵp Dosbarthu i ddechrau trafod manylion y dulliau dosbarthu ar gyfer y cyllid hwn a bydd yr argymhellion yn cael eu trafod yn yr Is-Grŵp Cyllid nesaf.

Ym mis Ebrill 2025, byddwn yn gweld y flwyddyn gyntaf o daliadau i'r awdurdodau o dan gynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ("EPR") ar gyfer pecynnu yr ydym wedi'i ddatblygu ar y cyd ar sail pedair gwlad. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y dylai'r cyllid o'r cynllun EPR ar gyfer pecynnu i dalu costau rheoli gwastraff pecynnu fod yn ychwanegol at y cyllid y mae'r awdurdodau wedi'i dderbyn yn flaenorol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol. Bydd hyn yn datgloi buddsoddiad ychwanegol i wella ailgylchu yn erbyn y targed statudol gofynnol o 70% ac yn cefnogi gweithredu ehangach fel rhan allweddol o'r camau i ddatgarboneiddio a thyfu'r economi werdd. Darparodd y pedair cenedl yr incwm ffioedd dangosol fesul awdurdod ar gyfer 2025-26 ym mis Tachwedd 2024.

Hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith caled a'r gwytnwch a ddangoswyd ar draws y sector gan swyddogion ac aelodau etholedig dros sawl blwyddyn wrth iddynt ymateb i'r heriau parhaus y mae cynghorau wedi bod yn eu hwynebu. Rydym yn gwybod na ellir gwrthdroi 14 blynedd o doriadau mewn un gyllideb yn unig. Bydd yn cymryd amser i gyllid cyhoeddus adfer. Rwy'n hynod falch bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ei phenderfyniadau cyllidebol.

Nid wyf o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru bennu lefel fympwyol o gynnydd yn y dreth gyngor waeth beth fo'r amgylchiadau neu ddewisiadau lleol. Bydd angen i'ch awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr ystod lawn o ffynonellau cyllid sydd ar gael, yn ogystal â'r pwysau yr ydych yn eu hwynebu. Rwy'n eich annog i barhau i gydbwyso'n ofalus effaith y cynnydd ar gyllid aelwydydd â'r effaith a gaiff colli cymorth a gwasanaethau. Rwy'n gwybod y byddwch chi fel Arweinwyr, aelodau etholedig a swyddogion ar hyd a lled Cymru yn ymdrechu i ddod o hyd i ffyrdd o wneud y defnydd gorau o adnoddau i wneud y gwahaniaeth mwyaf i'ch cymunedau.

Yn unol â'n ffocws ar y cyd ar gefnogi aelwydydd, byddwn yn parhau i gynnal hawlogaethau llawn o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2025-26 ac rydym unwaith eto yn darparu £244m ar gyfer y cynllun yn y Setliad i gydnabod hyn.

Cafodd Llywodraeth Cymru setliad cyfalaf uwch ar gyfer 2025-26 ac, yn y setliad drafft, roeddwn yn falch o allu rhoi cynnydd o £20m i gyllid cyfalaf cyffredinol i £200m i gefnogi'r cynnydd chwyddiannol mewn costau a rhoi mwy o hyblygrwydd i'r awdurdodau wrth ariannu prosiectau cyfalaf llai ac ailwampio neu gynlluniau megis Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl. O ganlyniad i gytundeb y gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Jane Dodd AS, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, mae'r Gyllideb Derfynol yn cynnwys £5m yn ychwanegol ar gyfer y Grant Cyfalaf Gwres Carbon Isel. Bydd hyn yn cynyddu'r cymorth

sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer gosod systemau gwresogi carbon isel yn eu canolfannau hamdden a'u gwneud yn wyrddach, yn gynhesach ac yn fwy cynaliadwy. Mae hyn yn dod â'r cyllid hwn i £35m. Rydym wedi cael rhai enghreifftiau gwych lle y gellir defnyddio'r cyllid hwn mewn prosiectau annibynnol neu fel rhan o raglenni cyfalaf ehangach i leihau ôl troed carbon ystad yr awdurdodau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl setliadau amlflwyddyn ar gyfer adnoddau a chyfalaf ar ddiwedd Adolygiad o Wariant y DU yn ystod hanner cyntaf 2025 a fydd yn rhoi'r sicrwydd y mae ei fawr angen i ni a'n partneriaid. Rwy'n gobeithio gallu darparu cyllideb setliad llywodraeth leol dangosol am fwy na blwyddyn yn unig yn y gyllideb ddarpariaeth nesaf.


Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* drafft a'r tablau cysylltiedig sy'n cynnwys manylion y Setliad yn ôl awdurdod unigol hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r tablau hyn yn cynnwys y dyraniadau Cyllid Allanol Cyfun ("AEF") ar gyfer pob awdurdod unigol, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am grantiau refeniw a chyfalaf sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2025-26. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddaru ymhellach ar gyfer y setliad terfynol.

Bu rhai newidiadau bach rhwng y setliad drafft a'r setliad terfynol sydd wedi effeithio ychydig ar ddosbarthiad y cyllid. Mae cynnydd o £145k yn ardollau'r parciau cenedlaethol, newid bach iawn yn y sylfaen gosod trethi a diweddariad i ddata model y gronfa gyfalaf gyffredinol hyd at 2025-26 sy'n bwydo i mewn i fformiwla'r prif setliad.

Rwy'n gwybod eich bod yn ymwybodol o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol pan fônt yn gymwys. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol. Rhaid i'r awdurdodau hefyd fod wedi cymryd eu dyletswyddau i ystyriaeth o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2025-26.

Bydd y Llywodraeth yn mynd ati yn awr i osod yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) ar gyfer 2025-26 i fod yn destun dadl yn y Senedd ar 4 Mawrth 2025.

Yn gywir



**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
Cabinet Secretary for Housing and Local Government